ARFOR Gwedd II (2022/23 – 2024/25)

# CYNNIG AMLINELLOL

## Rhesymeg

Yn Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn ceir y mwyafrif llethol o'r cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r cymunedau hyn yn allweddol i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg a'i barhad yn iaith beunyddiol.

Mae heriau economaidd y bedair sir – megis cyflogau isel, tan-gyflogaeth a gweithlu sy'n crebachu - yn gyffredin i llawer o ardaloedd gwledig ac ymylol yng Nghymru a thu hwnt; ond mae ardrawiad yr heriau hyn ar y Gymraeg yn unigryw ac yn bellgyrhaeddol.

Mae ffyniant cadarnleoedd y Gymraeg yn amodol ar fwy na gwaith a thâl, ond gellir rhesymu fod anallu'r economi i gefnogi trigolion i gyflawni eu dyheadau - a cynnal llefydd llewyrchus - yn andwyol.

## Pwrpas

Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

## Amcanion strategol

1. **Creu cyfleoedd i pobl a teuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid** - gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
2. **Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg** - drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
3. **Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio** - drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd o fewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn, ond gyda teilwra i amgylchiadau lleol.
4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** - drwy gefnogi defnydd a gweledydd y Gymraeg, annog naws

am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws yr rhanbarth.

## Egwyddorion gweithredu

- Cydweithio, cyd-gynllunio a rhannu gwersi.
- Cynyddu dealltwriaeth o'r broblem a gwella'n barhaus gan adeiladu ar yr hyn gyflawnwyd yn ystod gwedd gyntaf ARFOR.
- Sicrhau fod gwerthuso yn rhan integredig o'r rhaglen.
- Ychwanegu gwerth ac ategu gweithgareddau prif ffrwd (datblygu ieithyddol a datblygu economaidd) neu cyfarch blychau yn y darpariaeth.
- Canolbwyntio ymdrech ar nifer bach o themâu craidd fel bo modd mesur effaith ond parhau i dorri tir newydd a threialu syniadau.
- Gweithredu ar sail pedair sir gyda golwg ar wersi i ardaloedd eraill a'r sgôp i ymestyn ffiniau daearyddol yn y dyfodol.
- Cyfrannu'n gadarnhaol i themâu llorweddol; lleihau ôl troed carbon, sgiliau, arloesedd a'r defnydd o dechnoleg.